Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS

Ysgrifennydd Gwladol Cymru

23 Medi 2020

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol**

Ysgrifennais atoch ar 1 Gorffennaf 2020 i'ch hysbysu o ymchwiliad y **Pwyllgor Cyllid** i weithrediad Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol ac i'ch gwahodd i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor yn nhymor yr hydref.

Fel y gwyddoch, mae Deddf Cymru wedi bod ar waith ers 2014 ac rydym o'r farn ei bod yn amser perthnasol i ystyried ei gweithrediad ac effeithiolrwydd y Fframwaith Cyllidol. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol clywed gennych ar y materion hyn o gofio eich rôl yn sicrhau bod y setliad datganoli yn un clir a chryf i Gymru a bod buddiannau economaidd Cymru yn cael eu hyrwyddo.

Mae tîm clercio'r Pwyllgor wedi bod mewn cysylltiad â'ch swyddogion i weld a fyddwch ar gael **ddydd Llun 16 Tachwedd 2020**. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a yw'r dyddiad hwn yn addas; fel arall fe wnawn ni ein gorau i drefnu dyddiad arall. Yn ogystal, byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi ymateb ysgrifenedig yn rhoi sylw i'r cylch gorchwyl cyn gynted ag y bo modd (gweler y Canllawiau ar gyfer rhoi tystiolaeth i bwyllgorau).

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS / MS

Cadeirydd / Chair

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565